| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| **DYDDIAD** | **7 CHWEFROR 2008** |
| **TEITL** | **YMATEB Y CYFLOGWYR I'R YMGYNGHORIAD AR Y DATGANIAD STRATEGAETH CYLLIDO** |
| **AWDUR** | **DILWYN WILLIAMS, CYFARWYDDWR STRATEGOL ADNODDAU** |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor yma yn ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr 2007, mae'n ofynnol arnom i adolygu a chyhoeddi Datganiad Strategaeth Cyllido (DSC) erbyn 31 Mawrth 2008. Fel rhan o'r adolygiad yma mae'n rhaid i'r awdurdod gweinyddol, ymgynghori gyda phob cyflogwr sy'n rhan o'r cynllun, gydag actiwari ac ymgynghorydd y gronfa a chydag unrhyw bersonau eraill y maent yn eu hystyried yn addas.

1.2 Yn ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr 2007, penderfynodd y Pwyllgor Pensiynau ar y polisïau canlynol:

- dylai'r enillion ychwanegol disgwyliedig o fuddsoddi mewn ecwiti yn hytrach na gilt fod yn 1.75% (sef yr un fath ag yr oedd ym mhrisiad 2004);
- cynyddu'r cyfnod ar gyfer adfer diffyg Coleg Menai, Coleg Meirion Dwyfor a Choleg Llandrillo i 15 mlynedd a derbyn bod y cyfnodau adfer ar gyfer y cyflogwyr eraill a ddefnyddiwyd ym mhrisiant 2004 yn dderbyniol ar gyfer prisiant 2007;
- fod disgwyl i gyflogwyr sy'n wynebu cynnydd o lai na 1% symud i'r gyfradd newydd yn syth. Fodd bynnag, os oes cynnydd o fwy na 1% yng nghyfradd y cyflogwr o'r gyfradd y dylid ei dalu yn dilyn hicyn olaf prisiad 2004 a'r gyfradd newydd, yna byddem yn ystyried codi i'r gyfradd newydd yn raddol.

1.3 Ar 20 Rhagfyr 2007, gyrrwyd llythyr ymgynghorol allan i bob cyflogwr sy'n rhan o'r cynllun, i actiwari ac ymgynghorydd y Gronfa ac i gynrychiolwyr Unsain, TGWU a'r GMB, yn ymgynghori ar y tri polisi a nodir yn 1.2 uchod. Gofynnwyd iddynt ymateb gydag unrhyw sylwadau erbyn 25 Ionawr 2008.

1.4 Mae copi o'r Datganiad Strategaeth Cyllido diwygiedig yn Atodiad A.

## 2. Yr Ymateb â Gafwyd

2.1 Derbyniwyd tri ymateb i'r ymgynghoriad. Roedd dau ymateb yn nodi eu bod yn fodlon gyda'r newidiadau, tra bod y llall eisiau gwneud cais i gyflwyno'r cynnydd yn eu cyfraniad yn raddol. Roedd yr ymateb fel a ganlyn:

Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru
"Diolch am dy lythyr dyddiedig Rhagfyr 20fed. Nid oes gan yr Heddlu unrhyw wrthwynebiad i'r newidiadau".

Cyngor Sir Ynys Môn
"Diolch am eich llythyr dyddiedig 20 Rhagfyr 2007. Rwyf yn gallu cydsynio â'r newidiadau arfaethedig".

Gyrfa Cymru

"Mewn ymateb i'ch cais ynglŷn â para.3.7.2 cyflwyno cynnydd mewn cyfraniadau yn raddol, rwyf yn ysgrifennu i wneud cais i gymryd mantais o'r cymal i gyflwyno'r cynnydd yn ein cyfraniadau dros gyfnod o 3 blynedd".

2.2 Yn 2007/08, mae cyfradd Gyrfa Cymru fel cyflogwr yn 15.6%, ac mae canlyniadau'r prisiad drafft yn dynodi y dylai godi i 17.3%, sef cynnydd o 1.7%.

2.3 Mae'n rhaid i'r Pwyllgor ystyried a ydynt am adael i Gyrfa Cymru gyflwyno'r cynnydd yn eu cyfraniadau dros gyfnod o 3 blynedd.

## 3. Argymhelliad

3.1 Bod y Datganiad Strategaeth Cyllido diwygiedig (yn Atodiad A) yn cael ei fabwysiadu.

3.2 Bod y Pwyllgor yn ystyried a ydynt yn fodlon gadael i Gyrfa Cymru gyflwyno'r cynnydd yn eu cyfraniadau dros gyfnod o 3 blynedd.

| | |
|---|---|
| **MEETING** | **PENSIONS COMMITTEE** |
| **DATE** | **7 FEBRUARY 2008** |
| **TITLE** | **EMPLOYERS RESPONSE TO THE CONSULTATION ON THE FUNDING STRATEGY STATEMENT** |
| **AUTHOR** | **DILWYN WILLIAMS, DIRECTOR OF RESOURCES** |

## 1. Introduction

1.1 As reported to this Committee's meeting of 14 December 2007, we are required to review and publish a Funding Strategy Statement (FSS) by 31 March 2008. As part of this review the administering authority has to consult with each scheme employer, the fund actuary and advisers and any other persons they consider appropriate.

1.2 At it's meeting on the 14 December 2007, the Pensions Committee decided on the following policies:

- that the anticipated excess return from investing in equities rather than gilts should be 1.75% (the same as it was in the 2004 valuation);
- to increase the period for recovering the deficits of Coleg Menai, Coleg Meirion Dwyfor and Coleg Llandrillo to 15 years, and to accept that the recovery periods used for the other employers in the 2004 valuation was acceptable for the 2007 valuation;
- that employers facing an increase of less than 1% should move to the new rate immediately. However, if there was an increase in excess of 1% of employers contributions from the rate that should be paid following the final point of the 2004 valuation and the new rate, then the Committee would consider phasing in the new rate.

1.3 On the 20 December 2007, a consultation letter was sent out to all the scheme's employers, the Fund's actuary and adviser and to representatives of Unison, TGWU and the GMB, consulting on the three policies noted in 1.2 above. They were asked to respond with their comments or observations by 25 January 2008.

1.4 A copy of the revised FSS is attached in Appendix A.

## 2. The Response Received

2.1 We received three responses to the consultation exercise. Two of the responses stated that they were happy with the proposed changes, whilst the other wanted to request phasing in their contribution rise. The responses were as follows:

<u>North Wales Police Authority</u>
"Thank you for your letter dated December 20th. The Police have no objections to the changes".

<u>Isle of Anglesey County Council</u>
"Thank you for your letter dated 20th December. I am able to consent to the proposed changes".

Careers Wales

"In response to your request on para 3.7.2 phasing in of contribution rises, I am writing to request that we wish to take advantage of the clause to opt to phase in our rises over a period of 3 years".

2.2 Careers Wales' employer contribution rate for 2007/08 is 15.6%, and the draft valuation results indicate that it should rise to 17.3%, an increase of 1.7%.

2.3 The Committee will need to consider if it is willing to allow Careers Wales to phase in their contribution rise over a period of 3 years.

## 3. Recommendation

3.1 That the revised Funding Strategy Statement (in Appendix A) is adopted.

3.2 That the Committee considers if it is willing to allow Careers Wales to phase in their contribution rise over a period of 3 years.